

University of South Wales Prifysgol De Cymru



Ysbrydoledig
Inspiring



Ymatebol
Responsive



Creadigol
Creative



Proffesiynol
Professional

POLISI TYMHEREDD

Arweiniad ar wresogi ac oeri ein hadeiladau

Ystadau a Chyfleusterau

Teitl:					
Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi	Disgrifiad o Unrhyw Newid	Awdur	Cymeradwywyd Gan/Dyddiad	Dyddiad Adolygu Nesaf
1.0	25/03/2019	Fersiwn Gyntaf	A Milanese	<i>J Elyda</i> 15.04.2019	
1.1	18/11/2019	Diwygiad i adran 4.1	A Milanese	<i>J Elyda</i> 19.11.2019	01/05/2020



CYNNWYS

1.0	Cyflwyniad	T3
2.0	Terfynau o ran Tymheredd	T3
3.0	Polisi Gwresogi	T4
4.0	Gwresogyddion Trydan Cludadwy	T4
5.0	Polisi Oeri	T5
6.0	Sut gallwch chi helpu	T6
7.0	Atodiad	T8



Polisi Tymheredd Prifysgol De Cymru

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Prifysgol De Cymru yn gwario llawer o arian ar ynni; oddeutu £3m y flwyddyn ar hyn o bryd. Mae oddeutu 89% o'r arian hwn yn cael ei wario ar nwy a thrydan. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i wresogi, oeri a defnyddio cyfarpar trydanol yn ein hadeiladau. Mae'r polisi hwn wedi cael ei greu i roi arweiniad ar y lefelau cysur thermol a ddisgwyllir o amgylch y Brifysgol, gan ystyried yr effaith ar gostau ynni ac ar ôl troed carbon y Brifysgol, yn unol â'r Polisi Rheoli Ynni.

2. Terfynau o ran Tymheredd

2.1. Nod y Brifysgol yw darparu lefel cysur thermol sy'n ateb gofynion y rhan fwyaf o unigolion, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae tymhereddau targed wedi cael eu gosod ar gyfer gwahanol fannau o amgylch y Brifysgol. Gallwch weld y rhain yn Nhabl 1, ac maent yn cyd-fynd â chanllawiau Sefydliad Siartredig y Peirianyddion Gwasanaethau Adeiladu (CIBSE) ar gyfer rhedeg adeiladau, Sports England, a'r cod ymarfer a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n nodi y dylai'r tymheredd sylfaenol yn y gweithle fod yn 16 Gradd Celsius o leiaf fel arfer. Os yw'r gwaith yn golygu llawer o ymdrech corfforol, dylai'r tymheredd fod yn 13 Gradd Celsius o leiaf.

	Tymheredd targed ar gyfer y gaeaf	Tymheredd targed ar gyfer yr haf
Mannau Addysgu		
Labordai/ystafelloedd cyfrifiaduron	19-21°C	<27°C
Ystafelloedd cyfarfod/ystafelloedd bwrdd/ystafelloedd cynhadledd	19-21°C	<27°C
Mannau Addysgu	19-21°C	<27°C
Rhannau cyffredinol o'r adeiladau		
Mynedfa/lobi	19-21°C	<27°C
Ceginau masnachol	15-18°C	<28°C
Coridorau	16-18°C	<28°C
Toiledau	16-18°C	<28°C
Mannau/ystafelloedd aros	19-21°C	<27°C
Ystafelloedd storio	15°C	<27°C
Llyfrgelloedd		
Llyfrgell	19-21°C	<27°C
Mannau Chwaraeon		
Ystafelloedd Newid/ardaloedd triniaeth a chlinigau	20-22°C	<27°C
Neuadd Chwaraeon	16-18°C	<27°C



Y gampfa	16-18°C	<27°C
Swyddfeydd		
Gweithredol	19-21°C	<27°C
Cyffredinol	19-21°C	<27°C
Cynllun Agored	19-21°C	<27°C
Ystafelloedd cyfarfod	19-21°C	<27°C
Llety preswyl	19-21°C pan mae pobl yn bresennol	<27°C

Tabl 1: Y Targed ar gyfer Ystod Tymheredd

3. Polisi Gwresogi

- 3.1. Mae tymor gwresogi'r Brifysgol, yn gyffredinol, yn dechrau ar 1af Hydref ac yn dod i ben ar 1af Mai bob blwyddyn. Mae'n bosibl y bydd y tymor gwresogi'n cael ei ymestyn, gan ddibynnu ar ragolygon y tywydd. Yn yr wythnosau cyn ac ar ôl y tymor gwresogi, bydd y rhagolygon yn cael eu monitro'n ofalus gan staff yr adran Ystadau, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud i droi'r gwres ymlaen os tybir bod angen. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd y tymor gwresogi'n cael ei gwtogi os yw'r tymheredd y tu allan yn ystod y dydd yn uwch na 20°C am bum diwrnod gwaith neu ragor yn olynol.
- 3.2. Mae oriau gwresogi arferol wedi'u hoptimeiddio i fod ar dymheredd gweithio rhwng 8.00am a 6.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd y Brifysgol yn darparu gwres y tu allan i oriau yn y Llyfrgell ac ar gyfer darlithoedd/digwyddiadau eraill sydd wedi'u trefnu yn ôl yr angen. Bydd gwres yn cael ei roi ymlaen os bydd angen yn ystod arholiadau'r haf hefyd.
- 3.3. Bydd neuaddau preswyl y myfyrwyr yn cael eu gwresogi yn ôl yr angen er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn bodloni'r ystod tymheredd yn y polisi hwn.

4. Gwresogyddion Trydan Cludadwy

- 4.1. Rydym yn annog pobl yn gryf i beidio â defnyddio gwresogyddion trydan cludadwy. Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch a lleihau'r perygl o dân, mae'n rhaid i bob uned aerdymheru a gwresogydd dros dro ar gampysau'r Brifysgol gael profion PAT. Dim ond gwresogyddion cymeradwy wedi'u darparu gan yr Adran Ystadau a Chyfleusterau fydd yn cael eu defnyddio yn ein campysau, ac mae'n rhaid iddynt fod yn wresogyddion olew. Mae gwresogyddion yn gallu achosi tân, ac mae'n risg o hynny'n uchel, felly mae'n bosibl y bydd gwresogyddion sydd heb eu hawdurdodi'n cael eu symud gan y tîm cynnal a chadw. Mae'n rhaid i bob uned aerdymheru a gwresogydd dros dro gael eu hawdurdodi gan yr Reolwr Cynnal a Chadw. Os yw'ch man gwaith wastad yn oer neu'n boeth, holwch Ddesg Gymorth yr



Adran Ystadau. Bydd aelod o'r tîm cynnal a chadw yn cymryd darlenniadau er mwyn gweld beth yw'r tymheredd ar gyfartaledd. Yna bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i weld beth yw'r achos a meddwl am yr ateb gorau posibl.

- 4.2. Gellir darparu gwresogydd cludadwy mewn achosion eithriadol lle mae gan y defnyddiwr gyflwr meddygol sylfaenol sy'n gofyn am dymheredd amgylchedd gweithio sy'n uwch na'r polisi tymheredd gofod Prifysgol cytunedig. Mewn achosion o'r fath, dim ond unwaith y bydd y staff wedi cadarnhau bod ganddynt anhwylder meddygol sylfaenol wrth ysgrifennu at y Rheolwr Cynnal a Chadw y darperir gwresogydd cludadwy.

5. Polisi Oeri

- 5.1. Bydd y Brifysgol yn caniatáu oeri at ddibenion ymchwil yn unig, ac ar gyfer gweithgareddau penodol lle mae angen aer oer er mwyn cynnal neu reoli tymheredd neu lefel lleithder penodol. Nid yw'r Brifysgol yn caniatáu oeri er mwyn gwneud pobl yn fwy cyfforddus. Mae'n rhaid i unrhyw gais ychwanegol i oeri ystafell gael ei amlinellu mewn achos busnes a'i roi i'r Reolwr Cynnal a Chadw i'w ystyried. Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad gael ei awdurdodi gan y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau, gan ystyried y costau ynni, y costau cynnal a chadw a'r goblygiadau deddfwriaethol o ran lleihau carbon.
- 5.2. Y targed ar gyfer y tymheredd uchaf yn y rhan fwyaf o'r Brifysgol yn ystod yr haf yw 27°C. Rydym yn deall y bydd ambell le yn gorboethi o bosibl, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Fodd bynnag, ni fydd system aerdymheru'n cael ei gosod ar gyfer oeri'r manau hyn yn ystod yr adegau prin hyn o orboethi. Mae aerdymheru'n defnyddio tua dwywaith cymaint o ynni ag awyru naturiol. Felly, yn aml iawn, fe allai atebion rhad-ar-ynni fod yn fwy priodol na gosod system oeri i wneud pobl yn fwy cyfforddus pan mae hi'n boeth e.e. defnyddio ffan ar ddesgiau, agor ffenestri, yfed diod oer, gwisgo dillad addas ac ati.
- 5.3. Ni fydd y Brifysgol yn rhoi arian i osod systemau aerdymheru oni bai eu bod yn angenrheidiol:
 - yn ôl rheoliadau neu godau ymarfer sy'n orfodadwy
 - ar gyfer cyfarpar priodol, er enghraifft, yn ystafell y gweinydd neu mewn labordai
 - oherwydd nad yw awyru naturiol ar ei ben ei hun yn ddigon ar gyfer oeri
 - oherwydd bod defnyddwyr a/neu gyfarpar yn codi tymheredd yr amgylchedd yn uwch na 27°C yn gyson dros gyfnod o wythnos



5.4. Os penderfynir bod angen gosod system oeri, bydd angen i'r tîm Ystadau gytuno ar strategaeth ar gyfer oeri cyn i'r cynllunio manwl ddechrau. Dylid gwneud yn siŵr bod yr holl gyfarpar oeri a osodir:

- yn defnyddio ynni mor effeithlon ag y bo modd
- wedi'u cysylltu â system reoli'r adeilad
- yn cynnwys nwyon oerol sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol

5.5. Ni chaniateir unedau aerdymheru cludadwy yn adeiladau'r Brifysgol oni bai eu bod yn cael eu gosod gyda phibell echdynnu neu ddull o dynnu'r gwres sy'n cael ei amsugno o'r ardal sy'n cael ei hoeri. Gellir defnyddio ffaniau desg os ydynt wedi cael profion PAT.

5.6. Pan fydd systemau aerdymheru'n cael eu gosod, bydd y tymheredd yn cael ei osod i ddim llai na 27°C, a dylai'r system gael ei gosod i oeri'r ystafell dim ond pan mae pobl ynddi. Dylid gwneud yn siŵr bod pob drws a ffenestr yn y man sy'n cael ei oeri yn aros ar gau, ac ni ddylai unrhyw wresogyddion personol gael eu defnyddio i gynhesu manau sy'n cael eu hoeri. Bydd y gosodiadau a'r amseroedd ar yr uned aerdymheru'n cael eu gosod a'u rheoli gan staff y tîm Ystadau yn unig, a bydd gosodiadau'n cael eu gwarchod gan gyfrinair.

6. Sut gallwch chi helpu i arbed ynni a theimlo'n fwy cysurus o amgylch y Brifysgol

6.1. Gall staff a myfyrwyr wneud nifer o bethau i ddelio â thymheredd oer iawn neu boeth iawn, a helpu i arbed ynni yr un pryd:

- Gwisgo dillad sy'n addas ar gyfer y tywydd – gall gwisgo mwy o ddillad wneud i chi deimlo'n fwy cysurus (2-3°C yn gynhesach gyda phob haen ychwanegol)
- Yfed diod poeth neu oer gan ddibynnu ar yr amodau
- Defnyddio ffenestri'n briodol
- Defnyddio llenni neu len dywyll ar ffenestri mewn tywydd poeth i leihau cynhesu solar
- Manteisio ar oriau gweithio hyblyg pan fydd hynny'n briodol i osgoi tywydd eithriadol o boeth neu eithriadol o oer
- Cymryd saib yn rheolaidd
- Gwneud yn siŵr nad oes gormod o bobl yn yr ystafell
- Gwneud yn siŵr nad yw gweithfannau wedi'u lleoli wrth ymyl ffynonellau gwres neu rannau oer o'r ystafell
- Diffodd goleuadau ac offer trydanol diangen, yn enwedig yn yr haf, gan fod y rhain yn gallu cyfrannu llawer at wres yr ystafell
- Rhoi gwybod i Ddesg Gymorth y Tîm Ystadau am unrhyw broblemau'n ymwneud â gwresogi neu oeri




Mae'r polisi hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Is-Ganghellor y Brifysgol a bydd yn cael ei rannu â'r holl aelodau o staff a myfyrwyr y mae eu gweithgareddau'n effeithio ar ein defnydd o ynni.



7. Atodiad

7.1. Gwariant Prifysgol De Cymru ar gyfleustodau yn ôl campws – 2017/2018



7.2. Gwariant Prifysgol De Cymru ar gyfleustodau, a chanran pob un

